# Wythnos 1 / Arddegau cynnar CA3
# Cyflwyno'r Beibl

## Cynllun y sesiwn

**Prif neges:** 'Darllen y Beibl. Cyfarfod Duw. Trawsnewid.'

### Adnodau allweddol:


**Eseia 40:8**
*Mae'r glaswellt yn crino, a'r blodyn yn gwywo, ond mae neges yr Arglwydd yn aros am byth!*

**Hebreaid 4:12**
*'Mae neges Duw yn fyw ac yn cyflawni beth mae'n ei ddweud. Mae'n fwy miniog na'r un cleddyf.'*

**Luc 24:32**
*'Dyma nhw'n dweud wrth ei gilydd, "Roedden ni'n teimlo rhyw wefr, fel petai'n calonnau ni ar dân, wrth iddo siarad â ni ar y ffordd ac esbonio beth mae'r ysgrifau sanctaidd yn ei ddweud!"*

### Adnoddau:


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Taflen 'Llyfrau Gorau' (darperir) | Beiros a phin ffelt melyn | Rhestr gan fudiad Open Doors o lefydd peryglus yn y byd i fod yn Gristion | Drych llaw | Darn o linyn neu raff |
| Cardiau fflach 'Dechrau' a 'Diwedd' | Pentwr o bapur | Conffeti | Iesu<br>Iesu - Nifer o ddarnau papur sydd a 'Duw', 'Iesu', 'Mae Duw yn dy garu di' wedi eu hysgrifennu arnyn nhw | 예수<br>Symbol mewn Coreeg o'r gair Iesu, ar bapur mewn inc du |



# Cychwyn gyda'r Beibl

**Cyfeiriwch at yr 'adnod allweddol' – os ydych chi'n defnyddio papur, ysgrifennwch yr adnod ar ddarnau gwahanol o bapur fel y diagram isod. Darllenwch yr adnod yn uchel gyda'ch gilydd**

**Dechreuwch bob darlleniad gyda'r llinellau hyn:** ***'Mae'r Beibl yn LLAWN o eiriau Duw. Beth sydd gan Dduw i'w ddweud wrthym heddiw?'***




***Addasu ar gyfer Zoom***

- Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw cael yr adnod ar PowerPoint a rhannu eich sgrin
- Gallwch hefyd ei ysgrifennu ar bapur y gallwch ei ddal i fyny o flaen y sgrin

# Activity – Best Books

***Mae'r Beibl yn boblogaidd***

Gofynnwch i'r bobl ifanc am rai o'r llyfrau gorau maen nhw erioed wedi'u darllen (bydd gan hyd yn oed y rhai nad ydyn nhw'n ddarllenwyr mawr rywbeth i'w gyfrannu). Gadewch iddyn nhw fod yn wirion yn eu hymatebion - gallant ddewis llyfr plentyn bach e.e. Gofynnwch iddyn nhw am gynllun y straeon - y dechrau, canol a'r diweddglo. Rhestrwch eu holl lyfrau yn y daflen 'Llyfrau Gorau' (darperir). Yna gofynnwch iddyn nhw roi marc seren i bob llyfr - faint o sêr fydden nhw'n eu rhoi allan o'r pump ar gyfer y llyfr o'u dewis?

Nawr gofynnwch iddyn nhw ailadrodd y broses ar gyfer y Beibl - beth yw stori sylfaenol y Beibl, ydyn nhw'n gwybod? Faint o sêr fydden nhw'n ei roi iddo?

**Cymhwyso:** Mae ein hoff lyfrau yn gwerthu yn eu miloedd bob blwyddyn. Maen nhw'n boblogaidd iawn. Ond mae'r Beibl yn gor-werthu pob un o'r llyfrau hyn bob blwyddyn! Y Beibl yw llyfrwerthwr gorau yn y byd - a hynny bob blwyddyn!

Cynllun sylfaenol y Beibl yw ei fod yn ymwneud â Iesu ac am gymaint y mae'n caru'r byd hwn a phawb sydd ynddo. Oeddech chi'n gwybod bod y Beibl mor bwerus, fel ei fod yn newid bywydau pobl bob dydd ledled y byd? Mewn gwirionedd mae mor bwerus fel bod Beiblau wedi'u gwahardd mewn rhai gwledydd. Gall fod yn beryglus iawn i fod yn Gristion a bod yn berchen ar gopi o'r Beibl! Cyfeiriwch at y siart 'Open Doors' i ddarganfod y gwledydd mwyaf peryglus i fod yn Gristion ynddo.

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Gallwch e-bostio'r daflen adolygu llyfrau at y bobl ifanc ymlaen llaw a gofyn iddynt ei chwblhau cyn y sesiwn
- NEU gallwch chi ei gwblhau ar eu cyfer wrth iddyn nhw siarad â chi trwy'r llyfrau maen nhw'n eu hoffi

# Gweithgaredd: Hanes Robert Jermaine Thomas

(Crynhowch y stori hon, ond cofiwch fod yn sensitif gyda'r manylion yn ôl natur eich grŵp. Gofalwch bod gennych fap o'r byd neu glôb i ddangos ble mae'r lleoedd byddwch yn sôn amdanynt.)
Roedd yna ddyn o'r enw Robert ac roedd yn byw yng Nghymru (dangos ar y map). Roedd Robert yn caru Duw ac yn caru'r Beibl.
Roedd eisiau dweud wrth bawb am Dduw a rhoi copi o'r Beibl i bawb, felly fe ddechreuodd hynny trwy deithio i Tsieina (dangos ar y map) er mwyn dweud wrth bobl yno am Dduw, a rhoi'r Beibl yn rhodd iddyn nhw. Yna clywodd Robert am le o'r enw Corea ac roedd am i'r bobl a oedd yn byw yno hefyd gael y Beibl (dangoswch Corea ar y map). Fodd bynnag, roedd Corea yn lle peryglus i fynd iddo, yn enwedig os oeddech chi'n cario'r Beibl gyda chi ar y daith.

Ond dysgodd Robert iaith pobl Corea (dangoswch y gair am 'Iesu'). 예수

Helpodd Robert y bobl i gyfieithu'r Beibl i'w hiaith, sef Coreeg; ac aeth ar daith mewn llong gyda'r Beibl hwn. Wrth i'w long agosáu at Corea, dechreuodd criw o filwyr saethu tuag ati. Fodd bynnag, llwyddodd Robert i neidio o'r llong. Dechreuodd ddosbarthu Beiblau i unrhyw un y gallai ei weld wrth iddo redeg ar hyd y lan, gan weiddi'n uchel wrth fynd, 'Iesu, Iesu.'

Ond cafodd ei ladd gan y dyn olaf y rhoddodd Robert Feibl iddo. Dywedwyd wrth bobl Corea i ddinistrio'r holl Feiblau, ond yn lle hynny fe ddechreuon nhw ddefnyddio'r tudalennau papur oedd yn y Beibl fel papur wal yn eu tai. Fedrwch chi ddyfalu beth ddigwyddodd wedyn? Fe ddechreuodd pobl ddarllen eu papur wal - sef y Beibl. Cofiwch - geiriau Duw yw'r Beibl; mae'n bwerus a gall newid bywydau pobl. Tra bu i'r bobl ddarllen y Beibl ar eu waliau fe ddaethant i garu Iesu a newidiwyd eu bywydau gan y geiriau grymus.

**Cymhwyso:** Bydd y Beibl yn para am byth oherwydd ei fod yn llawn geiriau Duw. Mae hynny'n eu gwneud yn bwerus. Mae geiriau Duw yn newid bywydau pobl.

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Sicrhewch fod gennych fap o'r byd a'r gwledydd perthnasol y mae angen iddynt eu gweld ar eich sgrin - efallai byddai modd cael llun o bob gwlad ar sleid PowerPoint ar wahân
- Gallai lluniau wedi eu hargraffu weithio hefyd

# Gweithgaredd: Mae'r Beibl yn boblogaidd - ond a yw'n ddibynadwy?

Gofynnwch i'r bobl ifanc ddiffinio beth yw ystyr y gair 'dibynadwy' (gallant gwglo'r gair ar eu ffonau). Mae rhywbeth sy'n ddibynadwy fel arfer yn rhywbeth a ystyrir yn safonol ac o ansawdd da.

**Cwestiwn:** A yw'r Beibl yn disgyn i'r diffiniad hyn?

**Cwestiwn:** Pa brawf sydd ei angen arnom i wybod bod y Beibl yn ddibynadwy? Gadewch inni ei gymharu â dau waith llenyddol gwych arall yn ei gyfnod.

Sicrhewch fod gennych dri phentwr o lyfrau (neu flychau o bapur)

**Pentyrrau 1** – 30 o lyfrau (dyma'ch pentwr mwyaf a rhaid iddo fod yn amlwg yn dalach - y talaf y gorau)

- Labelwch y pentwr hwn 'Y Beibl'

**Pentyrrau 2** – Wyth llyfr

- Labelwch y pentwr hwn 'The Iliad by Homer'.

**Pentyrrau 3** - Tri llyfr

- Labelwch y pentwr hwn '*Annals of Imperial Rome*' gan Tacitus.

**Cymhwyso:** Gadewch inni gymharu'r Beibl â rhywfaint o lenyddiaeth fyd-enwog - gwn na chlywsoch erioed am y ddau lyfr hyn yn ôl pob tebyg (cyfeiriwch at The Iliad ac Annals of Imperial Rome), ond filoedd o flynyddoedd yn ôl, roedd y rhain yn ddarnau poblogaidd o lenyddiaeth. Gadewch inni ddechrau gyda'r pentwr lleiaf:

*'Gweithgaredd: Mae'r Beibl yn boblogaidd - ond a yw'n ddibynadwy? parhad*

(Yr hyn sy'n allweddol yma yw'r gwahaniaeth ym maint y pentyrrau - er mwyn sicrhau'r effaith weledol. Rhannwch gyn lleied neu gymaint o wybodaeth ag y teimlwch y bydd eich grŵp yn medru ymdopi ag ef)

**Pentwr 3 - Tacitus**

Roedd Tacitus yn un o haneswyr a gwleidyddion mwyaf Rhufain. Mae'r cyfrolau yn edrych ar deyrnasiad pedwar Ymerawdwr Rhufeinig. Fodd bynnag, dim ond 33 copi a ysgrifennwyd â llaw o'r llyfr gwych hwn. Mae'r bwlch rhwng pan ysgrifennodd ei lyfr ac oedran y copïau hyn oddeutu 800 i 1000 o flynyddoedd. Er hynny, maen nhw'n cael eu hystyried yn ddibynadwy iawn!

**Pentwr 2 - Homer**

Cerdd epig yw'r Iliad yng nghanol llenyddiaeth Groeg. Credir mai Homer yw'r awdur ac mae'n un o'r awduron mwyaf blaenllaw erioed. Mae 18,000 o gopïau dilys wedi'u hysgrifennu â llaw ar ôl. Y bwlch rhwng ysgrifennu'r gerdd hon ac oedran y llawysgrifau hynaf yw 450 mlynedd - unwaith eto, fe'u hystyrir yn ddibynadwy.

**Pentwr 1 -Y Beibl**

Mae mwy na 66,000 o gopïau hynafol o'r Beibl wedi'u hysgrifennu â llaw mewn cylchrediad, rhyw 42,000 ar gyfer yr Hen Destament a 24,000 ar gyfer y Testament Newydd - ie, dyna pam mae'r pentwr hwn LLAWER yn fwy. Mae'r bwlch rhwng pan ysgrifennwyd llawysgrifau'r Testament Newydd a'r darnau a'r llawysgrifau cynharaf sydd wedi goroesi yn rhyfeddol o fyr.

**Cymhwyso:** Mae'r Beibl yn llenyddiaeth hynafol hynod ddibynadwy! Mae'n bwerus, mae'n boblogaidd, ac mae'n ddibynadwy. Mae hyn oherwydd na chafodd ei ysgrifennu gan haneswyr, gwleidyddion na chwaith gan awduron, ond gan Dduw ei hun, gyda chymorth llawer o awduron dynol. O ran dibynadwyedd, mae'r Beibl yn rhagori ar bob cyfrol arall - a gallwn ymddiried yn llwyr ynddo. Fel testun hanesyddol, wedi'i lenwi â chaneuon, llythyrau, straeon, cerddi, mae'r llyfr hwn yn sefyll i fyny fel un dilys, gyda thestun dibynadwy, hanesyddol. Felly darllenwch ef, cewch gyfarfod â Duw ynddo ac yna cewch benderfynu a ydych chi'n ymddiried yn yr hyn y mae'n ei ddweud. Mae pobl sy'n ymddiried yn y Beibl yn aml yn dweud ei fod wedi newid eu bywydau!

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Byddai modd paratoi sleid PowerPoint gyda'r llawysgrifau a nifer y copïau sy'n bodoli i gyd wedi'u cymysgu - gofynnwch i bobl ifanc geisio eu paru'n gywir
- Ar ail sleid, nodwch yr holl atebion yn gywir iddynt wirio eu hatebion
- Rhowch y ffeithiau am y Beibl ar sleidiau PowerPoint ar wahân neu os yw'n haws, darnau o bapur rydych chi'n eu dal ar y sgrin

# Gweithgaredd: Newid bywydau?

Mae'r Beibl wedi'i ysbrydoli gan Dduw, a ddefnyddiodd lawer o awduron dynol i gyfrannu at y Beibl. Roedd yr awduron hyn yn cynnwys brenhinoedd, beirdd, bugeiliaid a meddygon. Stori epig yw'r Beibl sy'n canolbwyntio ar Iesu a cymaint mae Duw yn caru'r byd a'r bobl y mae wedi'u creu.

**Darllenwch:** 2 Timotheus 3:16 (beibl.net)

'Duw sydd wedi ysbrydoli'r ysgrifau sanctaidd hynny i gyd, ac maen nhw'n dysgu beth sy'n wir i ni, yn cywiro syniadau anghywir, yn dangos beth dŷn ni'n ei wneud o'i le, a'n dysgu ni i fyw yn iawn. '

Defnyddiwch y cwestiynau canlynol i gynnal trafodaeth am y Beibl:

1. Sut ydych chi'n meddwl y daeth Duw ac ysgrifenwyr dynol ynghyd i gynhyrchu'r Beibl? (Fel enghraifft, fe allech chi ddweud bod hyn: 'Mae pobl yn aml yn meddwl mai Christopher Wren a adeiladodd Eglwys Gadeiriol St Paul yn Llundain. Ond nid yw hynny'n hollol wir. Daeth llawer o adeiladwyr ynghyd i'w hadeiladu, yn seiliedig ar y cynlluniau a'r ysbrydoliaeth a ddarparwyd gan Christopher Wren. )

2. Ydych chi'n credu bod y Beibl yn ein dysgu am fywyd, ac am y byd rydyn ni'n byw ynddo a pham rydyn ni yma?

3. Sut mae'r Beibl yn ein cywiro pan rydyn ni'n anghywir?

*'Gweithgaredd: Newid bywydau?' parhad*

4. Sut mae'r Beibl yn ein dysgu i wneud yr hyn sy'n iawn?
5. Sut fyddech chi'n esbonio i'ch ffrindiau beth yw'r Beibl? Beth fyddech chi'n ei ddweud wrthyn nhw?

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Ar sleid PowerPoint byddai modd gosod geiriau adnod 2 Timotheus 3:16 ac ar sleidiau ychwanegol gosod y cwestiynau trafod
- Gweithiwch drwyddynt un ar y tro

**Cymhwyso:** Yn y Beibl rydyn ni'n dysgu sut i fod y bobl y mae Duw wedi'u cynllunio i ni fod. Mae'n dangos i ni sut i fyw a chael ein trawsnewid (Rhufeiniaid 12:2). Pan rydyn ni'n darllen y Beibl, rydyn ni'n cwrdd â Duw ar bob tudalen. Does ryfedd ei fod yn llyfr mor boblogaidd a phwerus. Does ryfedd ei fod yn ein trawsnewid.

Fe allech chi wylio stori Finny am sut y newidiodd y Beibl ei fywyd yn y carchar o Sesiwn Un o adnoddau Cyfres y Beibl.

# Gweithgaredd - Drych, drych...

Pasiwch ddrych llaw o amgylch yr ystafell, gydag un person ifanc yn edrych i mewn iddo ar y tro. Wrth iddyn nhw edrych i mewn iddo, beth am i chi eu gwahodd i ofyn i'r drych unrhyw beth maen nhw'n dymuno amdano.

**Cymhwyso:** Mae'n debyg bod llawer o'r pethau y gwnaethom ofyn amdanynt yn aml yn cynnwys pethau a fyddai yn gwella ein bywydau (ailadroddwch rai o'r pethau y gofynnodd y grŵp amdanynt). Efallai y byddwn ni'n edrych yn y drych ac yn dymuno cael dannedd gwell, edrych yn deneuach, edrych fel (enwch actor/model/canwr enwog).

**Darllenwch:** Iago 1:23 sy'n sôn am y Beibl fel drych. Ym mha ffyrdd y gallai hyn fod yn wir? Pan edrychwch mewn drych, rydych chi'n gweld pethau sydd angen sylw - yr angen i dynnu bwyd allan o'ch dannedd, neu'r angen i frwsio eich gwallt, ychwanegu colur ar eich wyneb ac ati.

Mae'r Beibl yn dangos i ni beth sydd angen yn ein bywydau a sut i'w gael. Fe wnaeth Iesu roi ei hun drosom ni, ac felly yn syml, mae'n rhaid i ni gredu ynddo, gwneud ein gorau i'w ddilyn a byw mewn ffordd sy'n ei anrhydeddu. Dyma sut rydyn ni'n trawsnewid ein bywydau.

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Daliwch ddrych llaw go iawn i fyny i'r sgrin
- NEU dangoswch lun PowerPoint o ddrych
- NEU e-bostiwch bawb cyn y sesiwn a gofyn i'r bobl ifanc gael drych llaw wrth eu hymyl yn barod ar gyfer y sesiwn

# Gweithgaredd: O'r Dechrau i'r Diwedd

Rhowch ddarn o linyn ar y llawr a dywedwch wrth y bobl ifanc ei fod yn cynrychioli llinell stori'r Beibl. Gyda phapur a beiro, rhowch farciau 'Dechrau' a 'Diwedd' mewn lleoedd perthnasol. Rhannwch y llinell yn ei hanner a chyfeiriwch at yr hanner cyntaf fel yr Hen Destament a'r ail hanner fel y Testament Newydd. Gofynnwch i'r grŵp feddwl am ddigwyddiadau mawr yn y Beibl, eu hysgrifennu ar ddarnau o bapur ac yna eu hychwanegu at y llinell stori yn y drefn maent yn credu eu bod yn ymddangos yn y Beibl.

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Paratowch sleid PowerPoint gyda llinell sy'n nodi man cychwyn a gorffen
- Caniatewch i bobl ifanc siarad am y straeon sy'n gyfarwydd iddyn nhw'n yn y Beibl a thrafod trefn y straeon hynny
- Sicrhewch fod gennych sleid neu ddalen PowerPoint sydd â'r llinell amser gyda rhai o'ch straeon eich hun wedi'u hychwanegu (ee Creu, Noa, Josua, Samson, Daniel, genedigaeth Iesu, bedydd Iesu, iachâd y claf o'r parlys, croeshoelio, atgyfodiad, Pentecost, Nefoedd Newydd a Daear Newydd)

**Cymhwyso:** Mae'r Beibl yn llawn o straeon, pobl a digwyddiadau anhygoel sy'n canolbwyntio ar berson Iesu. Iesu yw arwr stori'r Beibl i gyd. Yn y pen draw, mae'r Beibl yn canolbwyntio ar y groes, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu. Wrth inni ddarllen y Beibl a dod i adnabod Iesu, gallwn gael ein trawsffurfio a'n newid gan yr Ysbryd Glân. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn edrych ar stori fawr y Beibl a sut mae'r cyfan yn pwyntio at Iesu.

# Gweddi greadigol

Daliwch i fyny Feibl sydd wedi'i lenwi ymlaen llaw â llawer o ddarnau o bapur sy'n darllen 'Duw', 'Iesu', 'Mae Duw yn dy garu di'. Gosodwch y bobl ifanc i eistedd mewn cylch. Sefwch yn y canol, ac agorwch y Beibl fel bod yr holl ddarnau o bapur yn cwympo allan ar y llawr (efallai y gallwch ychwanegu rhywfaint o gonffeti er mwyn cael effaith gweledol mwy dramatig). Gadewch i rai darnau ddisgyn ar ben y bobl ifanc. Gofynnwch iddyn nhw gau eu llygaid a gweddïo.

***Addasu ar gyfer Zoom***

- Bydd angen i chi anfon amlen yn y post ymlaen llaw - ni ddylent ei hagor nes i chi ddweud hynny yn eich sesiwn.
- Y tu mewn i'r amlen rhowch lond llaw o gonffeti a'r negeseuon 'Duw', 'Iesu' a 'Mae Duw yn eich caru chi' y tu mewn
- Gofynnwch iddyn nhw i agor eu hamlen a thywallt y cynnwys ar Feibl agored
- Wrth iddyn nhw wneud hyn byddwch chi'n gweddïo

**Gweddi**

*Arglwydd, diolch am roi'r Beibl inni. Diolch i ti, oherwydd dy fod ti'n bwerus, mae'r Beibl yn bwerus hefyd. Iesu, helpa fi i ddarllen y Beibl ac i'th adnabod di'n well.*

*Helpa fi i roi'r pethau rwyt ti'n dweud wrthyf i ar waith.*

*Duw, rwyt ti'n fawr ac yn Hollalluog - mae dy eiriau'n fwy gwerthfawr nag aur.*

*Bydd dy eiriau yn trawsnewid fy mywyd. Amen.*

## Sesiwn nesaf:

Sesiwn 2: Gwreiddiau ac Ystyr

